| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **9 CHWEFROR 2010** |
| **PWNC** | **CANLLAWIAU DRAFFT AR Y CÔD YMDDYGIAD** |
| **PWRPAS** | **CYTUNO AR YMATEB Y PWYLLGOR I GANLLAWIAU DRAFFT YR OMBWDSMON** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ganllawiau drafft ar y Côd Ymddygiad. Mae'r Canllawiau'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a'r dyddiad cau yw 12 Chwefror 2010.

2. Anfonwyd copi o'r canllawiau at aelodau'r Pwyllgor a gofynnir iddynt ddod â'r ddogfen gyda hwy i'r Pwyllgor.

3. Yn ogystal, anfonwyd copi o'r canllawiau at holl aelodau'r Cyngor yn gwahodd eu sylwadau ac fe adroddir wrth y Pwyllgor am unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.

4. Gweler yn yr atodiad ddrafft i'r Pwyllgor ei ystyried.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor drafod y Canllawiau a'r ymateb drafft a chytuno ar ymateb i'w anfon at yr Ombwdsman ar ran y Cyngor.

**ATODIAD.**

**Y CÔD YMDDYGIAD - CANLLAWIAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU. YMATEB GAN BWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD.**

1. Yr ydym yn croesawu'r bwriad i gyhoeddi Canllawiau ar y Côd Ymddygiad. Credwn y bydd Canllawiau o fudd i gynghorwyr i ddeall y Côd ac i ddeall yr amgylchiadau pan fydd yr Ombwdsmon yn ystyried bod y Côd wedi ei dorri. Yn hyn o beth, fe fydd yn fanteisiol i'r Canllawiau, nid yn unig roi dehongliad o'r cymalau yn y Côd, ond hefyd rhoi enghreifftiau i ddangos sefyllfaoedd pan fydd aelod yn cadw at y Côd neu'n torri'r Côd. Yn gyffredinol byddai rhagor o enghreifftiau yn fuddiol yn y Canllawiau er mwyn egluro'r Côd.

2. Mae'r sylwadau isod yn cyfeirio at yr un rhifau paragraff a ddefnyddir fel penawdau yn y ddogfen ymgynghorol.

3. **Yr Egwyddorion** - Nid yw'r egwyddorion yn rhan o'r Côd enghreifftiol, ond mae rhai cynghorau, gan gynnwys Cyngor Gwynedd wedi eu mabwysiadu fel rhan o'i Côd Ymddygiad. Drwy hynny maent yn dod yn rhan o'r Côd ar gyfer yr awdurdod, ac yn agored i ymchwiliad gan yr Ombwdsmon.

   (Noder fod Adran 51(iv)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu yn benodol y gall awdurdodau lleol gynnwys yn eu Côd Ymddygiad, unrhyw ddarpariaeth yn ychwanegol at y côd enghreifftiol cyn belled a bod y darpariaeth yn gyson gyda'r côd enghreifftiol).

4. **Penderfynu pryd mae'r Côd Ymddygiad yn berthnasol i chi.** - Byddai yn fanteisiol cynnwys hefyd i bwy mae'r Côd Ymddygiad yn berthnasol er mwyn cael eglurder ynglŷn â sefyllfa aelodau cyfetholedig gyda phleidlais.

5. Byddai'n fanteisiol cynnwys cyfarwyddwr cwmni hefyd yn y rhestr enghreifftiau gan bod dyletswydd arnynt i weithredu er budd y cwmni.

6. **Trin Pobl Eraill â Pharch (para. 4(b))** - Mae hwn yn un o'r paragraffau yn y Côd sydd yn denu'r mwyaf o sylw ac mae'n bwysig fod y canllawiau ar hwn yn hollol glir a diamwys. Gofynnwn i'r Ombwdsmon ystyried ymhellach ei arweiniad ar ymosodiadau personol. Mae yr ail baragraff o'r Canllawiau yn dweud y dylid "osgoi ymosodiadau personol". Mae'r pedwerydd paragraff yn dweud na ddylid "ymosod yn afresymol nac yn ormodol ar unigolyn yn bersonol". Mae yna elfen o wrthddweud y dylid cael arweiniad clir a yw ymosodiad personol yn dderbyniol beth bynnag fo'i natur a phwy bynnag yw'r testun. Byddai'n fuddiol i'r rhan hwn o'r Canllawiau ymdrin hefyd hefo sylwadau a gyhoeddir yn y wasg neu ar wefannau o'u cymharu â rhai a wneir o lawr y Siambr neu mewn sgyrsiau. Byddai'n fanteisiol cael

arweiniad ar pa un a yw amgylchiadau gwneud unrhyw sylwadau yn ystyriaeth berthnasol, e.e. a oes gwahaniaeth rhwng y sylwadau a wneir yng nghanol dadl boeth yn y Siambr a rhai a gymerwyd amser i'w llunio a'u hysgrifennu cyn eu cyhoeddi. Mae hefyd angen gwahaniaethu rhwng sylwadau ar rinweddau swyddogaeth a sylwadau sy'n difrïo cymeriad person.

7. **Bwlio a brawychu (para. 4(c)).** - Hwyrach y byddai'n fuddiol tynnu sylw cynghorwyr yn y rhan yma o'r Canllawiau at y ffaith eu bod yn rhinwedd ei swyddi mewn sefyllfa bwerus lle gallant ddylanwadau ar unigolion eraill a dylid cymryd gofal bob amser nad ydynt yn creu'r argraff o gamddefnyddio y dylanwad hwnnw. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â swyddogion yr awdurdod lle mae'r cynghorwyr sy'n creu'r Cyngor yw eu cyflogwyr.

8. **Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod (para. 4(d)).** - Tybed a fyddai'n fuddiol hefyd cynnwys rhywbeth ynglŷn â pheidio annog swyddogion i weithredu yn groes i ganllawiau a pholisïau'r Cyngor.

9. **Datgelu gwybodaeth gyfrinachol (para. 5(a)).** - Nid yw'r amgylchiadau a amlinellir yn y trydydd a'r pedwerydd pwyntiau bwled yn rhan o Gôd Ymddygiad Cymru (yn wahanol i Lloegr).

   Er y byddai datgelu gwybodaeth gyfrinachol, er mwyn cael cyngor proffesiynol yn dderbyniol i'r rhan fwyaf o bobl, mae llawer mwy o amwysedd ynglŷn â datgelu "er budd y cyhoedd". Gan nad yw yr amod yma yn rhan o'r Côd yng Nghymru, yr ydym yn cwestiynu a oes ei angen yn y Canllawiau o gwbl. Mae cloriannu budd y cyhoedd yn dasg anodd ac mae'r Canllawiau yn agor y drws i aelodau gredu fod ganddynt hawl i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol pan nad oes ganddynt mewn gwirionedd.

   Os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod budd y cyhoedd yn rhywbeth y byddai'n talu sylw iddo wrth ymdrin â chwyn dan y paragraff yma, oni ddylai fod yn fater sydd yn mynd i wraidd unrhyw gosb neu fel ffactor lliniaru yn hytrach na'r cwestiwn gwreiddiol o gafodd y Côd ei dorri.

   Credwn y byddai'n fuddiol crybwyll yn arbennig yn y rhan yma fel enghraifft o wybodaeth gyfrinachol, gwybodaeth mae'r awdurdod wedi penderfynu sy'n eithriedig dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

10. **Rhwystro mynediad at wybodaeth (para. 5(b)).** - Credir fod arweiniad y Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi nad yw aelod unigol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac awgrymwn y dylai'r Canllawiau adlewyrchu arweiniad y Comisiynydd rhag creu dryswch. Mae'r paragraff fel y mae yn ben agored iawn.

11. **Anfri (para. 6.1(a))**. - Tybed a fyddai'n well i'r Canllawiau ym mharagraff 12 ymddangos yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymdrin â paragraff 12.

12. **<u>Gwneud penderfyniadau yn wrthrychol (para.8).</u>** - Gan fod y Canllawiau yn ymdrin â'r gwahaniaeth rhwng rhagdueddiad a rhagderfyniad (er nad yw rhagderfyniad yn rhan o'r Côd ond yn hytrach yn egwyddor o gyfraith), efallai y byddai'n fuddiol cynnwys arweiniad ynglŷn â'r hyn y dylai aelod ei wneud mewn sefyllfa o ragderfyniad, h.y. gadael yr ystafell a pheidio cymryd rhan mewn penderfyniad.

Efallai y byddai enghraifft o fudd i egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

13. **<u>Buddiant personol (para. 10),</u>** - Mae rhif 10, sef unrhyw dir mae gan yr aelod drwydded arno am ragor na 28 diwrnod wedi ei hepgor o'r rhestr.

Mae'r dehongliad o baragraff 10(2)(b) yn gaeth ac yn debyg o arwain at sefyllfaoedd lle nad yw aelod lleol yn gallu dadlau dros faterion cynhennus o fewn ei ward. Yn ein barn ni mae hyn yn mynd yn groes i'r egwyddor o ddemocratiaeth a'r diben o gael aelodau i gynrychioli rhanbarthau penodol. Gofynnwn am i'r arweiniad gael ei ail ystyried a'i gyfyngu dim ond i sefyllfa lle mae'r aelod mewn sefyllfa o wneud penderfyniad ar ran yr awdurdod, h.y. dan bwerau dirprwyedig.

Os nad yw'r Ombwdsmon yn credu mai dyna'r arweiniad cywir i'w roi, yna credwn y dylid rhoi enghreifftiau fel ei bod yn glir i aelodau sut fath o faterion sydd yn debyg o fod yn rhai lle mae dylanwad lleol a dan pa amgylchiadau mae hynny yn debyg o fod yn groes i fuddiannau'r awdurdod yn ei gyfanrwydd. Er enghraifft a fyddai ystyriaeth i gau ysgol yn dod dan y pennawd yma os yw'r awdurdod gyda strategaeth i ad-drefnu ysgolion, a beth fyddai sefyllfa yr aelod yn y ward gyfagos sy'n debyg o fod yn derbyn y plant o'r ysgol gaeth ei chau. Gwelwn y cymal yma yn un hynod o anodd i aelodau gadw ato.

14. **<u>Pwy yw aelod o'ch teulu neu yn rhywun y mae gennych gysylltiad agos ag ef/hi.</u>** - Mae y paragraff cyntaf yn rhoi diffiniad eang iawn o "teulu". Fodd bynnag nid yw "teulu" yn ymddangos yn y Côd Ymddygiad yn unrhyw le ac ni chredwn felly fod diffiniad o fudd.

Yn hytrach credwn y byddai'n fuddiol cynnwys yn y rhestr o bobl sydd â chysylltiad agos "perthynas". Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys "rhywun yr ydych yn ei adnabod drwy gysylltiadau cymdeithasol cyffredinol". Mae hyn yn eang iawn ac mewn cymdeithasau gwledig fe fydd yn cynnwys llawer iawn o bobl. Credwn fod angen arweiniad cliriach ynglŷn ag yn lle mae'r Ombwdsmon yn debyg o dynnu llinell rhwng rhywun sydd yn gydnabod a rhywun sy'n croesi'r trothwy i fod yn "gyswllt agos" yn ystyr y Côd. Byddwn yn awgrymu y byddai'n rhaid i'r berthynas fod yn rhywbeth mwy na chydnabod drwy fod yn aelod o'r un mudiad er enghraifft, ac y byddai'n gorfod cynnwys ymwneud cymdeithasol rheolaidd.

Byddai'n fuddiol cynnwys nodyn i egluro mae cyfrifoldeb personol yr aelod yw dod i gasgliad ynglŷn â pha un a oes ganddo fuddiant neu beidio er y gall gymryd cyngor gan y Swyddog Monitro.

15. **Buddiannau sy'n rhagfarnu (para. 12).** - Mi fyddai yn fanteisiol nodi rhywbeth ynglŷn â pharagraff 12(iii) sy'n nodi nad yw'r eithriadau yn berthnasol i sefyllfaoedd o gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad. Byddai enghreifftiau o'r hyn sy'n cynnwys materion trwyddedu neu reoliadol yn fanteisiol.

16. **Categorïau busnes wedi ei heithrio.** - Byddai'n werth cael eglurhad ynglŷn â sefyllfa llywodraethwyr ysgol sydd wedi ei henwebu gan yr awdurdod i'r corff llywodraethol. Cymerir eu bod yn dod o fewn yr eithriadau hyd yn oed os yw'r busnes yn ymwneud yn benodol a'r ysgol.

17. **Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu?** - Yn gyffredinol mae gormod o bwyslais ar pa bryd mae'r aelod yn cael siarad o'i gymharu â'i ddyletswydd i ymneilltuo o'r drafodaeth. Er enghraifft mae yna sôn am beidio "dylanwadu'n amhriodol" ond mae'r côd yn sôn am beidio "dylanwadu ar benderfyniad" gan mai dyma'r union beth mae'r côd yn ei wahardd. Gall arwain at gamddealltwriaeth ar ran aelod fod ganddo hawl i ddylanwadu'n ysgrifenedig ar y penderfyniad. Nodwn mai prin ydi'r enghreifftiau ble mae aelod hefo "hawl breifat" a chredwn fod y canllawiau drafft unwaith eto'n adlewyrchu'r sefyllfa yn Lloegr yn hytrach na Chymru. Credwn y dylai'r arweiniad yma fod llawer cadarnach am ymneilltuo o'r drafodaeth a pheidio â cheisio dylanwadu ar y penderfyniad.

18. **Rhoddion a Lletygarwch (para. 17).** - Mae'r canllawiau yn nodi nad oes rhaid cofrestru rhodd sydd heb ei dderbyn ond sydd wedi ei gynnig. Mae rhai awdurdodau megis Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu Côd Ymddygiad sydd yn nodi bod yn rhaid cofrestru pob cynnig o'r fath pa un yn cael ei dderbyn neu beidio.